OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2006 Rhif 767 (Cy.74)

# AMAETHYDDIAETH, CYMRU

## Rheoliadau Cynhyrchion sy'n Dod o Anifeiliaid (Mewnforion Trydydd Gwledydd) (Cymru) (Diwygio) 2006

| | |
|---|---|
| *Wedi - - - -* | *14 Mawrth 2006* |
| *Yn dod i rym - -* | *16 Mawrth 2006* |

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi'i ddynodi(**1**) at ddibenion adran 2(2) o Ddeddf Cymunedau Ewrop 1972(**2**) o ran polisi amaethyddol cyffredin y Gymuned Ewropeaidd.

Drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan yr adran honno, mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn—

### Enwi, cymhwyso a chychwyn

**1.** Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Cynhyrchion sy'n Dod o Anifeiliaid (Mewnforion Trydydd Gwledydd) (Cymru) (Diwygio) 2006; maent yn gymwys o ran Cymru a deuant i rym ar 16 Mawrth 2006.

### Diwygiadau i Reoliadau Cynhyrchion sy'n Dod o Anifeiliaid (Mewnforion Trydydd Gwledydd) (Cymru) 2005

**2.**—(1) Diwygier Rhan VIII o Atodlen 1 i Reoliadau Cynhyrchion sy'n Dod o Anifeiliaid (Mewnforion Trydydd Gwledydd) (Cymru) 2005 (**3**) yn unol â'r rheoliad hwn.

(2) Ar ôl paragraff 3 mewnosoder—

> "**3A.** Penderfyniad y Comisiwn 2005/760/EC ynghylch mesurau gwarchod penodol mewn perthynas â ffliw adar pathogenig iawn mewn trydydd gwledydd penodol ar gyfer mewnforio adar dof (OJ Rhif L285, 28.10.2005, t.60) (i'r graddau y mae'n ymwneud â chynhyrchion sy'n deillio o'r adar hynny), fel y'i diwygiwyd gan Benderfyniad y Comisiwn 2005/862/EC (OJ Rhif L317, 3.12.2005, t.19).".

(3) Yn lle paragraff 18 rhodder—

> "**18.** Rheoliad (EC) Rhif 1774/2002 Senedd Ewrop a'r Cyngor sy'n gosod rheolau iechyd ynghylch sgil-gynhyrchion anifeiliaid nas bwriedir ar gyfer eu bwyta gan bobl (OJ

(**1**) S.I. 2005/2766.
(**2**) 1972 c. 68.
(**3**) S.I. 2005/666 (W.56).

Rhif L273, 10.10.2002, t.1) fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Reoliad y Comisiwn (EC) Rhif 416/2005 (OJ Rhif . L66, 12.3.2005, t.10), ac fel y'i darllenir gyda Phenderfyniad y Comisiwn 2005/760/EC, fel y'i diwygiwyd gan Benderfyniad y Comisiwn 2005/862/EC (OJ Rhif L317, 3.12.2005, t.19 ).".

**Dirymu**

**3.** Dirymer Rheoliadau Cynhyrchion sy'n Dod o Anifeiliaid (Mewnforion Trydydd Gwledydd) (Cymru) (Diwygio) 2005(**4**)

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**5**)

*D. Elis-Thomas*

14 Mawrth 2006

Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

(**4**) O.S. 2005/3395 (Cy.271).

(**5**) 1998 p.38.

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rhan VIII o Atodlen 1 i Reoliadau Cynhyrchion sy'n Dod o Anifeiliaid (Mewnforion Trydydd Gwledydd) (Cymru) 2005 (O.S. 2005/666) ("Rheoliadau 2005"). Mae Rheoliadau 2005 yn gweithredu Cyfarwyddeb y Cyngor 97/78/EC sy'n gosod yr egwyddorion sy'n llywodraethu trefniadaeth gwiriadau milfeddygol ar gynhyrchion sy'n dod i'r Gymuned o drydydd gwledydd (OJ Rhif L24, 30.1.98, t.9).

Diwygir Rhan VIII o Atodlen 1 er mwyn rhoi effaith i'r cyfyngiadau ar fewnforio cynhyrchion sy'n deillio o adar a geir ym Mhenderfyniad y Comisiwn 2005/760/EC ynghylch mesurau gwarchod penodol mewn perthynas â ffliw adar pathogenig iawn mewn trydydd gwledydd penodol ar gyfer mewnforio adar dof (OJ Rhif L285, 28.10.2005, t.60) fel y'i diwygiwyd gan Benderfyniad y Comisiwn 2005/862/EC (OJ Rhif L317, 3.12.2005, t.19). Mewnosodir cyfeiriadau at Benderfyniad y Comisiwn Rhif 2005/760/EC (fel y'i diwygiwyd) ym mharagraffau 3A ac 18 o Ran VIII o Atodlen 1.

Mae Atodlen 1 i Reoliadau 2005 yn rhestru offerynnau'r Gymuned sy'n gosod amodau ar gyfer mewnforio cynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid i'r Gymuned. Mae Rheoliad 15 o Reoliadau 2005 yn gwahardd dod â chynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid ac nad ydynt yn cydymffurfio â'r amodau mewnforio hyn i Gymru.

Mae'r Rheoliadau hyn yn dirymu Rheoliadau Cynhyrchion sy'n Dod o Anifeiliaid (Mewnforion Trydydd Gwledydd) (Cymru) (Diwygio) 2005 (O.S. 2005/3395) (Cy.271).

Ni chafodd Arfarniad Rheoliadol ei baratoi ar gyfer y Rheoliadau hyn.